

## Cudyll o flaen yr haul



**Llun Ffwl Ebrill hwyr...!**  
...meddai'r ffotograffydd Dewi Edwards


*If it be at dusk, when  
Like an eyelid's soundless blink  
The dewfall hawk comes crossing the shades  
To alight upon a windwarped upland thorn*  
Thomas Hardy

### Gwyfnod llychlyd

Bu Don Perkins yn ecolegydd gyda'r Sefydliad Ecoleg Tir ym Mangor ac mae'n cadw gwefan tywydd manwl iawn (cyfeiriad y wefan yw [www.llansadwrn.wx.co.uk](http://www.llansadwrn.wx.co.uk)) Mae Don yn ymddiddori yn y manion llwch sydd yn cael eu cario i Lansadwrn, Môn, ar y gwynt, ac ar y 4 Ebrill nododd lwch ar y gwynt deheuol. Wythnos yn ddiweddarach cofnodais dri math o wyfnod wrth drapio ym Mwlchtocyn a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad (blwch isod).

Mae Don yn gefnogwr selog i Llên Natur ac yn mewnbwnu cofnodion i'r Dyddiadur yn rheolaidd.

NOAA HYSPLIT MODEL  
Backward trajectories ending at 2200 UTC 07 Apr 11  
GDAS Meteorological Data



**Dyma'r tri gwyfnod** a ddaliwyd ym Mwlchtocyn fore'r 11 Ebrill 2011. Mae'r dart tywyll (chwith) yn fewnfudwr wrth reddf ac mae'r dyfrlliw brwyn (canol) yn mewnfudo'n amlach nag y mae'n cenhedlu yma. Mae'r isadain felen fwyaf (de) yn gyffredin iawn yma ond o fis Mehefin ymlaen yn unig. Wrth ymddangos yn y cwmni hwn yn gynnar iawn a than yr amgylchiadau arbennig gallwn fod yn eithaf hyderus mai mewnfudwr oedd hwn hefyd.

Yn 70au'r ganrif ddiwethaf olrheiniwyd sbesimen o'r gwyfnod canol yn ôl o Brydain i'r Sahara diolch i'r llychieyn o eisotop arbennig arno a hannai o un o broffion niwclier Ffrainc ar y pryd. Roedd y llychieyn ymbelydrol cystal ag unrhyw fodrwy aderyn i'r diben.



Tynnwyd y ddau ar y chwith yn y fan a'r lle ym Mwlchtocyn. Spesimen a dynnodd Aled Jones ym Mhenryndeudraeth yn Awst 2009 yw'r isadain felen (de).

## Tywydd amserol

Dyma sylw gan Steve Roddick: "Here are a couple of old sayings I remember Dai Davies the old blacksmith from Holyhead saying years ago.

*A dry Lent means a fertile year.*

a'r cwpled:

*Easter in snow, Christmas in mud.*

*Christmas in snow, Easter in mud.*

*We can watch now and see if they prove right this year! It's been very dry this Lent, and we had snow on the ground last Christmas".*

[Byddwn yn siwr o adrodd yn ôl Steve, Gol.]

Dyma ymateb Twm Elias: Dydi rhain ddim yn gyfieithiadau uniongyrchol.

Ond ceir nifer o ddywediadau cyfatebol yn y Gymraeg, e.e.:

'Mae pegiad o lwch Mawrth yn werth ei bwysau mewn aur'

'Nadolig gwyrdd, Pasg gwyn'

## Ymladd ceiliogod



Dyma lun o bapur newydd yn Indonesia - Ebrill 2011. Er bod gorfodi ceiliogod i gwffio yn anghyfreithlon mae o'n dal yn weddol gyffredin yn y wlad.

Llun: Gwyn Williams

Erch i Fwletin 2 ar y

wefan i weld hanes ymladd ceiliogod yng Nghymru

Llyfr olaf Ted Breeze Jones cyn ei farw oedd llyfr Llafar Gwlad ar y pwnc difyr hwn. Erch i Amgueddfa Werin Sain Ffagan i weld talwrn ymladd ceiliogod o Ddinbych yn ei sblander

## Unig turloch yng Nghymru



Turloch Carmel ger Llandybie, 1 Rhagfyr 2009: llyn ar y garreg galch sydd yn llawn dŵr yn y gaeaf ond yn sychu'n llwyr yn yr haf. Dyma'r unig un sydd i'w gael yng Nghymru

Llun a hanes gan Ieuan Roberts

## Dolen ddifyr

Hanes gwyddonwr Cymreig yn "bar-codio" planhigion Cymru

Ifor Williams

"We aim to be one of the first nations to DNA barcode all of their native flowering plants (all 1143 species) and to use our barcodes for biodiversity conservation and to improve peoples' lives."...mwy yn:

[http://www.theregister.co.uk/2011/04/07/dna\\_barcode/](http://www.theregister.co.uk/2011/04/07/dna_barcode/)

## Tryfera

Thomas ac Evan Jones – tad a mab. Roedd Evan Jones yn hynod am ddal lledod ar y traeth. Nofiai gydag un fraich a thryfar yn y llall ac fel y gwelwch nid peth anarferol oedd cael helpa dda. Pryd tynnwyd y llun? Dim gwybodaeth, ond dyma ddyddiadau'r ddau – Thomas Jones 1814 – 1900 ac Evan Jones 1859 – 1928.

Celt Roberts, Talsarnau

Mae pysgota gyda thryfar (*trident*) yn gyfarwydd i bobl o gwmpas y Traeth Bach rhwng Harlech a Phenryndudraeth. Dull pysgota pa ardaloedd eraill yw hwn?

Dyma Celt yn ymhelaethu fel hyn: "Hen daid i Derwyn Evans oedd Evan Jones. Derwyn yw'r gŵr fu'n gweithio am rai blynyddoedd ar draeth Talsarnau yn y 50au yn torri tywyrch i'w gyrru ar hyd ac ar led i wneud lawntiau bowlio a thenis, ac i fannau megis planhigfa ar gyfer Wembley. Mae wedi trosglwyddo'r offer oedd yn eu defnyddio i ni i'w harddangos yn Neuadd Gymuned Talsarnau".



## 14 Ebrill 1931: Un diwrnod, 4 cofnod

**Rhiw:** Dyddiadur Griffith Thomas, gwefan Rhiw.com  
Hanner eto yn prigio cae parciau, yr hogiau yn cario llwch.  
**Colchester:** Dyddiadur Gwladys Higson  
*Wood full of anemones at Fordham. Leaves on elms just beginning*

**Llansilin:** Dyddiadur Hugh Jones, Cwm Canol  
Ffidio myllt, trin pethe. Tocio moge Erw ddol a Llechweddi. a tocio cynffonau wŷn Fron. Chwalu tail yn weirglodd fâch ar weirglodd. 9doz wyau @ 7a dime =7/1.

**Bwlchtocyn:** Dyddiadur John Owen Hughes, Crowrach  
Efo Min yn gosod tatws, 14. Braf ac oer.

## Cwlwm eto

Mae yna gyfeiriad at cwlwm ym Mwletin 37 ac efallai peth ansicrwydd o'i ystyr. Yn ei lyfr "*Pembrokeshire*" mae Brian John yn ysgrifennu: "*One of the earliest areas which shipped out coal and culm was the Landshipping area*". Glo mân felly yw cwlwm. Cefais air â chyfaill sydd dros ei bedwar ugain oed ac a fagwyd ar fferm yn ardal Arberth ac roedd yn hen gyfarwydd a'r gair a chofiai'n dda amdano fel tanwydd pwysig. Y drefn oedd cymryd tunnell neu ddwy ar y tro o gwllwm, clai a dŵr a cherdded ceffyl drwyddo yn ôl ac ymlaen i sicrhau cymysgu llwyr. Defnyddid hwn i gadw'r tân yn fyw dros nos. Ni fyddai'r tân byth yn diffodd a byddai'r gegin yn gynnes peth cyntaf yn y bore. Ni fyddai'r tanwydd yma yn creu digon o wres at goginio a rhaid fyddai defnyddio glo o ansawdd da yn ystod y dydd. Roedd cyfaill arall, eto yn oedranus, ac o ardal glofaol Castellnedd yn cofio yr un drefn, ond ar llai o raddfa. Arferai ei gymysgu a llaw ac yn gwneud peli i'w roi ar y tân i'w gadw'n fyw dros nos. Cofiai ei fod yn waith anifyr a brwnt iawn.

John Lloyd Jones, Pelcombe


## "Cerrig" pwyso



Uchod mae bar pwyso giat ym maes parcio Porthceiriad, Bwlchtocyn. Mae'n debyg mai offeryn pwyso nwyddau o rhyw fath oedd hwn yn wreiddiol. Ai 8 pwys a chwarter oedd hwn? Ar y chwith mae cerrig pwysau a ddefnyddid gan forwynion fferm i fesur ymenyn yn swydd Rhydychen yn yr 18ed Ganrif. Ffossiliau Clypeus ploti o'r oes Jurassig oeddynt. Dewch a'ch 'cerrig' pwyso chithau....

Llun gwaelod trwy ganiatad [www.fossildirect.co.uk](http://www.fossildirect.co.uk)

## Y Cymro a newidiodd y byd...bron



Cofeb Alfred Russell Wallace 1823 - 1925 a annwyd yn Kensington Cottage, Llanbadog, Brynbuga.

llun: Ieuan Roberts

Dywed y gofeb iddo fyw ym Mrynbuga tan yn bum mlwydd oed. Claddwd dwy o'i chworydd ym mynwent eglwys Llanbadog. Naturiaethwr, bioddaearyddwr, awdur a dyngarwr, fe archwiliodd ddyffryn yr Amazon ac ynysoedd Malai. Cyddargafyddodd gyda Charles Darwin y broses o esblygiad trwy Ddetholiad Naturiol. Bu'n Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol yn 1893 a chafodd yr Order of Merit yn 1910. F'i claddwyd yn Broadstone, Dorset.

## Pôs y mis



Tocyn llyfr £10 am ddyfalu enw Cymraeg neu Saesneg y creadur hwn. Anodd? Wel, ewch i **ORIEL Llên Natur** a mewnbynnwch y gair gwyfyn yn y blwch 'Yn ol

allweddair' ac mi gewch **CHI** benderfynnu ba mor anodd ydi'o. Fel arfer, y sawl sy'n anfon yr ateb cywir cyntaf i'n gyrraedd trwy'r ddolen Cysylltwch ar y wefan fydd yn derbyn y wob! Ateb cywir pôs mis diwethaf oedd **Ilin** ac Arfona Jones oedd yn fuddugol.

## Toi â moresg



Mae'r adfael yn Baile Mhuilinn, a'r bwthyn gyda to moresg newydd yn Baile Pheatrish ar Ynys Tíree, Ynysoedd Heledd. Lluniaiu o Fehefin 2010. Sypiau moresg i'w gweld ar y gwair tu cefn i'r bwthyn.

Graham Williams

Bu Graham, brodor o Lanrug, Arfon, yn byw a chrwydro'n helaeth yn yr Alban.

## Dolffiniaid Risso



Wyth o ddolffiniaid Risso yn Uyea Sound, Shetland. Cefais y fraint o edrych arnynt yn chwarae, tua 50 metr o'r lan am gyfnod o awr,

Gorffennaf 2010. Dolffin gweddol fawr ac anghyffredin ar y cyfan yw hwn. Roedd un ohonynt bron yn wyn. Nid ydynt yn arfer dod mor agos i'r traeth.

Llun a stori: Alun Williams

## Tynnu eithin

12 Mai 1999: Bum yn tynnu eithin ar Frest bach, Pantmawr - ugain i ddeg ar hugain o gropiau, a rheiny'n llawn blodau - cofio geiriau Dewi Emrys:

Hala'r hen gropyn eithin

I arllwys sofrins lawr dros y dibyn

Dyddiadur David Lewis Jones (Defi Lango)

Pryd oedd yr eithin yn ei anterth yn eich ardal chi eleni?

*a m s e r c o d i ' r l l e u a d l l a w n 2 0 : 4 6*

## Hutan y Mynydd



Dod adref o Sir Fôn, wedi bod yn gweld y creyr porffor gydag Eifion a Colin, a chlywed bod hutan y mynydd ar y Gogarth, Llandudno. Yn Iwcus i ni roedd yn dal yno, dwi'n siwr y cawn lun gan Eifion hefyd [gweler yr Oriol]. Dwi wedi gweld yr aderyn yma sawl gwaith ar y Gogarth, un ai yn y gwanwyn neu rhai ifanc.

Llun: Alun Williams

## Ysgwyf

Fe barodd y gair hwn gryn benbleth i rai ohonom wrth i ni fewnbynu dyddiaduron rhyfeddol Edward Evans, Parsele, St Edrens, Sir Benfro i ddyddiadur Llên Natur. Dyma rai o gofnodion EE yn cynnwys y gair:

5 Mawrth 1851 ....Bwrodd amryw scwyfur o geseirlaw – ond dim harm

26 Chwefror 1865 ...Shiffod y gwynt ir West, a daliod yn llid da, odieithr rhai scwyffs o wlaw mân - gwynt Nor. West Hwyr."

Mae Geiradur Prifysgol Cymru yn cyfeirio at y gair fel a ganlyn: sgwyf, ysgwyf (Saesneg eto mae'n debyg) sgum, ewyn, trochion. Felly pa fath o fwrw glaw oedd "Bwrw scwyffs nawr ac eilwaith" (enghraifft arall). Dyma ddywed Geraint Wyn Jones, Hwlfordd: scwyffs = sciffen yn cael ei ddefnyddio yn yr ardal yma am gawod ysbeidiol neu squall. Dyma ddywed Andrew Hawke, golygydd GPC am scwyffs: "Yn hytrach na sgwyf, ysgwyf, mae'n debycach o fod yn ffurf luosog ar: sgwiffen, [h.y. dim tarddiad] eb. ysgeintiad (o rywbeth): a *sprinkling (of something)*. Ar lafar, `tolwu sgwiffan o ddwst dros yr 'ata' (Myn.). Methu gweld dim byd tebyg yn yr OED na'r EDD (English Dialect Dictionary, Wright) yn yr un ystyr - ond mae bron yn sicr yn air benthg o ryw iaith.

Os am ymuno a'n grwp mewnbynu cofnodion, a chyfrannu i drafodaeth o eiriau difyr drwy ebost rhoch floedd.

## Eira Mai 1945...

Slough: 3 Mai 1945: *About 8pm the rain turned to snow. I ate my supper and watched the enormous snowflakes fall, wondering if any other country in the world could present such a scene - snow on tulips and broken lilac blossom, snow falling through bursting beeches and the sky ash - snow on shivering pansies and wan forget-me-nots. ..A fantastic spring. Three weeks ago the temperature was seventy in the shade.*

Dyddiadur Maggie Joy Blunt (Our Hidden Lives: Ebury Press 2005)

## ...ond nid ymhobman

Glandwr, Bodorgan: 8 Mai 1945  
*v. day..cyfarfod pregethu*

Dyddiadur Jane Williams (gda diolch i'w mab Wil)

Llundain: 8 Mai 1945

*A wonderful day from every point of view. Went wandering through the crowds in hot sunshine - Victory Europe Day*

Dyddiadur Noel Coward (Faber Book of Diaries)

## ...ac eira 12 Mai 1951

Mae'r camera weithiau llawn cystal â dyddiadur i gofnodi. Roedd hi'n braf yng Nghaernarfon y diwrnod hwn meddai log Gwaith Brics Brynseiont.

Lluniau gan Les Larsen



Agor lein yr Wyddfa 12 Mai 1951



Llyn Cwm Glas 12 Mai 1951



Crib Goch 12 Mai 1951



Mae cerbydau SCARAB i'w gweld yn gyffredin. Benthycwyd yr enw o deulu o chwilod, y *Scarabidae*. Fel y chwilod, mae'r cerbydau yn styciau bach sgwar a chryf. Dyma lun chwilen o'r teulu hwn, a gafwyd wrth fynd am dro trwy Coed Trefan ar lan afon Dwyfor.

Owen Pennant Thomas  
12 oed



Dyma enghraifft o ddwyn enw o fyd natur i greu *brand*. Esiimpl arall yw *Ribena* - diod cyrens duon wedi ei enwi ar ôl y Lladin *Ribes*. Petai pob stwcyn o gerbyd glanhau ffyrdd yn cael ei alw yn scarab gan bawb, byddai hynny yn enghraifft o *Genericised Brand Name*. Mae Hoover (neu well fyth, hwfer) yn enghraifft. Ewch i Fwletin 3 a 7 i weld mwy am hyn.



Plas Llanfaglan 1930au

## Drec

Wedi clywed y gair drec gan gymydog i mi yn Llanfaglan, fyddai yn cael ei roi ar gefn ceffyl er mwyn rhoi'r jaen yn sownd ar gyfer aredig ac ati. Yn ôl y disgrifiad credaf mai math o strap

ydwy. (gwelwch y saeth) Yn GPC, mae drec yn cyfeirio ni i trec, sef treck o'r saesneg ym mhob golwg. Ydi hwn yn gyffredin?

Ifor Dylan Williams

Mwy am "drec" fis nesaf [Go!]